# YSGOL Y BERLLAN DEG – ADRODDIAD LLYWODRAETHWYR I RIENI
















**2024-25**

**Headteacher – Ms M Phillips**

## CYNNWYS

Tud. 3……………………………………………………………………Rhagair

Tud. 4……………………………………Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Tud. 5………………………………………………………………Dyddiadau'r Tymor

Tud. 6……………………………………………………Gwybodaeth am yr ysgol

Tud. 7……………………………………Atgofion disgyblion o'r flwyddyn a fu

Tud. 20…………………………………………………Staffio a niferoedd plant

Tud. 21……………………………………………………Rhoddion i Elusennau

Tud. 22…………………………Datblygiadau Cwricwlaidd a Gweithgareddau amrywiol

Tud. 27…………………………………………………Anghenion Dysgu Ychwanegol

Tud. 29……………………………Gwerthusiad o Gynllun Gwella'r Ysgol 2024-2025

Tud. 31…………………………………………………Adroddiad Ariannol 2024-2025

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL I RIENI YSGOL Y BERLLAN DEG (2024-2025)**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Y Berllan Deg sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).

Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny ar bapur i'r ysgol erbyn ***Llun 8 Rhagfyr***.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am gyflawniad yr ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad.

*We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Y Berllan Deg in accordance with School Governors Annual Report Regulations (Wales).*

*We do not intend to hold a specific meeting to discuss this report unless a significant number of parents ask for a meeting. If you feel you would like to attend such a meeting, could you please make a written request to the school by* ***Monday 8 December***

*We hope that you will enjoy reading about our school's achievements during the year. You are welcome to get in touch with the chair of the governors or the headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report.*

## Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25. Mae wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol a chynhyrchiol gan arwain at Arolygiad Estyn llwyddiannus ym mis Mawrth 2025.

Hoffwn ddiolch i'r pennaeth Mari Phillips a'i staff y cydnabuwyd eu safonau uchel gan Estyn; "*arweinyddiaeth fwriadus a staff ymroddedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd dysgu gofalgar, croesawgar ac ysbrydoledig*"

Roedd yr adroddiad hefyd yn dyst i'n rhieni a'n plant a nododd fod "*ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn*" a bod "*y disgyblion wedi ymddwyn yn garedig ac yn aeddfed*". Diolch i chi rieni a phlant!

O ganlyniad i'r arolygiad, byddwn yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu dysgu annibynnol yn ogystal â sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol.

Hoffwn ddiolch i'r Ffrindiau (PTA) am eu codi arian diflino. Mae hyn wedi talu am welliannau i'r maes chwarae a deunyddiau addysgu gwerthfawr sydd wedi cyfoethogi profiad dysgu'r disgyblion yn uniongyrchol. Hoffwn hefyd ddiolch i wasanaethau llywodraethwyr ac adran addysg Cyngor Caerdydd am eu cefnogaeth barhaus ac yn ogystal, y flwyddyn nesaf, am gytuno i ariannu gwelliannau diogelwch safle. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cyd-lywodraethwyr sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i redeg llywodraethiant yr ysgol.

Wrth symud ymlaen, ein prif ffocws strategol yw denu mwy o blant - o bob oed - i ymuno â theulu Berllan Deg fel y gallwn symud allan o'r gyllideb ddiffygiol. Felly, anogwch fwy o rieni a phlant i ymuno â theulu Y Berllan Deg! Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith y gall plant nad ydynt yn siarad Cymraeg ymuno â ni (ar unrhyw oedran) gan fod yr awdurdod lleol yn darparu uned trochi i ganiatáu i blant fod yn hyderus yn y defnydd o'r Gymraeg yn gyflym.

Gadewch i ni barhau â'r egni a gweithio'n galed i gyflawni blwyddyn academaidd ffrwythlon arall.

*Wyn Griffiths*

Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Dyddiadau Tymor 2025-2026

| TYMOR | Dechrau Tymor | Dechrau $^1/_2$ Tymor | Diwedd $^1/_2$ Tymor | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Llun 1 Medi 2025 | Llun 27 Hydref 2025 | Gwener 31 Hydref 2025 | Gwener 19 Rhagfyr 2025 |
| **Gwanwyn** | Llun Ionawr 5 2026 | Llun 16 Chwefror 2026 | Gwener 20 Chwefror 2026 | Gwener 27 Mawrth 2026 |
| **Haf** | Llun 13 Ebrill 2026 | Llun 25 Mai 2026 | Gwener 29 Mai 2026 | Llun 20 Gorffennaf 2026 |

**Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (dim ysgol i'r disgyblion)**

01/09/25 (Dydd Llun): Hyfforddiant i'r holl staff

02/09/25 (Dydd Mawrth): Hyfforddiant i'r holl staff

03/10/25 (Dydd Gwener): Hyfforddiant i'r holl staff

07/01/26 (Dydd Mercher): Hyfforddiant i'r holl staff

19/06/26 (Dydd Gwener): Hyfforddiant i holl staff clwstwr Bro Edern

***04/05/26 (Dydd Llun): Calan Mai***

Bydd 1 diwrnod arall o hyfforddiant i staff yn ystod y flwyddyn

## GWYBODAETH AM YR YSGOL

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd Y Corff Llywodraethu** | Mr Wyn Griffiths<br>Ysgol Y Berllan Deg<br>Circle Way East<br>Llanedeyrn<br>Caerdydd<br>CF23 9LD |
| **Is-Gadeirydd** | Mrs Ali Carter |
| **Pennaeth** | Ms Mari Phillips |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs Angharad Walpole |
| **Clerc i'r Corff Llywodraethu** | Ms Eve Smith |

### Llywodraethwyr – Rhieni

| | |
|---|---|
| Ms Bethan Holliday-Stacey | hyd 19/12/26 |
| Mrs Alison Carter | hyd 18/10/28 |
| Mr Christopher Gibbs | hyd 02/11/28 |
| Dr Angharad Jones | hyd 02/11/28 |
| Mr David Taylor | hyd 02/11/28 |

### Llywodraethwyr - Staff

| | |
|---|---|
| Mrs Angharad Walpole (staff addysgu) | hyd 09/09/27 |
| Mrs Rhian Llewelyn Jones (staff addysgu) | hyd 09/06/28 |
| Mr Drew Marchant (staff ategol) | hyd 10/10/27 |

### Llywodraethwyr – Cymunedol (1 lle gwag)

| | |
|---|---|
| Ms Rhian Williams | hyd 23/09/28 |
| Ms Carris Wakefield | hyd 17/11/28 |
| Mr Wyn Griffiths | hyd 18/03/29 |

### Llywodraethwyr - Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Leol

| | |
|---|---|
| Mr Rodney Berman | hyd 30/04/29 |
| Mr Nick Webb | hyd 27/03/26 |
| Mrs Samantha Vaughan | hyd 30/06/26 |
| Mrs Sioned Cardew-Richardson | hyd 26/01/27 |

## ATGOFION DOSBARTHIADAU O'R FLWYDDYN A FU

## MEITHRIN

Rydyn ni wedi mwynhau:

- chwarae gyda Lego
- dysgu llythrennau Tric a Chlic
- chwarae gyda ffrindiau
- mynd ar y beiciau a'r scwteri
- bod yn Helpwr y Dydd.




## Pwyll

Rydyn ni wedi mwynhau

- chwarae gyda'n ffrindiau
- dysgu am ddeinosoriaid a chwarae gyda'r deinosoriaid
- dysgu am gylch bywyd y broga a chanu cân Bili Broga
- mynd ar drip i Fferm Cefn Mably i weld yr anifeiliaid a mynd ar y trên
- gwneud mathemateg
- chwarae gyda'r ceir
- creu yn y coridor gyda thoes a phaent
- dysgu am gylch bywyd pili pala
- adeiladu gyda lego, blociau, knex a'r cratiau ar yr iard
- gwneud parti i Cyw
- garddio yn y Berllan Fechan
- chwarae rôl yn y tŷ bach twt
- edrych ar luniau ohonom ni yn fabis
- creu cwch ar yr iard
- mynd â Seren a Sbarc adref a dringo'r mynydd Cymreictod
- darllen yn y gornel ddarllen

**Rhiannon**

Rydyn ni wedi mwynhau

- Dysgu am ddeinosoriaid
- Dysgu am Bili Bach y Broga a'r gân Bil Bach y Broga
- Brwsio dannedd
- Garddio, bod tu allan a dysgu am drychfilod
- Lliwio
- Dysgu darllen
- Chwarae yn y coridor gyda'r toes a bod yn greadigol
- Mynd ar drip i Gefn Mably
- Chwarae yn nhŷ bach twt y dosbarth
- Chwarae yn yr ardaloedd Byd Bach a Adeiladu
- Chwarae gyda ffrindiau
- Chwarae gyda'r offer ar yr iard




---

**Branwen**

Tymor y Nadolig:

Roedden ni wedi cyflwyno ein hunain a sôn am ein diddordebau a hefyd dysgu bod teuluoedd pawb yn wahanol.  Yna dysgon ni am arwyr lleol. Daeth rhywun o elusen Llamau i siarad gyda ni.

Fe wnaethon ni I gyd ddawnsio yn y sioe Nadolig - fel coed, teganau a sêr. Roedden ni wedi creu pedair coeden i ddangos sut maen nhw'n edrych yn wahanol yn y pedwar tymor.

Tymor y Pasg:

Aethon ni am dro i'r Maelfa er mwyn gweld y siopau lleol ac yna creu map o'r ardal leol.  Roedden ni wedi creu siop 'Bois y Pitsa' yn y sied ac archfarchnad yn y dosbarth. Cawsom fynd i Wagamamas i flasu bwyd! Dysgon ni hefyd am Fasnach Deg. Yn y Berllan Fechan, defnyddion ni ein synhwyrau. Roedden ni wedi mwynhau Dydd Miwsig Cymru gan greu llun ar grys i ddathlu.

Tymor yr Haf:

Roedd yr ymweliad i'r traeth yn fendigedig!! Dysgon ni am greaduriaid mewn pyllau. Dysgon ni sut i gadw'r traeth yn lân gan greu poster.
Creuon ni gychod i weld faint o geiniogau roedd e'n gallu dal cyn suddo! Pan wnaethon ni waith ar For-ladron, redden ni wedi creu dawns ar gyfer môr-ladron.

**Llŷr**

Am flwyddyn wych rydym wedi'i chael ym Mlwyddyn 1! Eleni, rydyn ni wedi dysgu sut i ysgrifennu geiriau a brawddegau Tric a Chlic gyda help Aled Afal a'i ffrindiau! Rydyn ni wedi mwynhau ymarfer ein sgiliau mathemateg a rhifedd trwy gymryd rhan mewn cwisiau Big Maths ac wedi dysgu am arian a newid yn 'Archfarchnad Aled Afal'. Un o'n hoff themau oedd dysgu am fywyd o dan y môr. Fe wnaethom ddysgu am bwysigrwydd edrych ar ôl ein moroedd trwy ysgrifennu ffeil ffeithiau am ein hoff greaduriaid y môr ac archwilio pyllau glan môr ar ein trip ysgol i Borthcawl. Drwy gasglu gwybodaeth am ein teuluoedd a chreu graffiau bar a diagramau Venn, fe wnaethon ni sylweddoli pa mor debyg a gwahanol ydyn ni i'n gilydd. Rydyn ni'n griw creadigol iawn hefyd ac wedi mwynhau creu Celf Pop wedi'i ysbrydoli gan Andy Warhol a pharotiaid lliwgar allan o blatiau papur. Trwy wneud arbrofion dosbarth, fel lansio rocedi Supertaten ac arbrofi gyda deunyddiau gwahanol gychod, rydyn ni wedi dysgu sut i fod yn wyddonwyr chwilfrydig. Mae Dosbarth Llyr yn caru treulio amser yn yr awyr agored ac rydym wedi cael profiad arbennig yn plannu, tyfu a chasglu llysiau o'n gardd ysgol. Cafodd pawb y cyfle i fod yn a chwrdd ag arwyr lleol eleni. Buom yn codi arian ac yn casglu eitemau ar gyfer yr elusen Llamau, ac roedd ymweliad o'r RNLI wedi dysgu ni am ddiogelwch ar y traeth a'u gwaith hanfodol. Dau ddiwrnod llawn hwyl a sbri ym Mlwyddyn 1 oedd ein Diwrnod Môr-ladron llawn gweithgareddau cyffrous, a'n taith i Wagamama lle cawsom gyfle i flasu a pharatoi bwydydd blasus fel nwdls. Waw, am flwyddyn anhygoel yn llawn atgofion bythgofiadwy!




## Pryderi

Yr holl brofiadau fyddwn ni yn eu cofio fwyaf am ein hamser ym mlwyddyn 2 eleni! Dechreuom y flwyddyn yn dysgu am 'Caerdydd' ac felly trip ar y bws i weld yr holl dirnodau enwog oedd ein profiad cyntaf! Wrth ddysgu am 'Cefn Gwlad' a 'Ffermio' aethom ni ar drip i Fannau Brycheiniog a chael cyfle i gerdded ar y mynydd, casglu blodau a phlanhigion gwyllt, a gweld pa anifeiliaid oedd yn byw yn y pwll dŵr. Wrth ddysgu am 'Ein Byd Mawr Ni' aethom ar drip i Sŵ Arch Noa a gweld llwyth o anifeiliaid di-ri, y capybara a'r eliffantod oedd ein ffefrynnau! Wrth ddysgu am 'Ffasiwn' fe wnaethom ni gynnal sioe ffasiwn ein hunain yn y neuadd! Uwchgylchu oedd ein ffocws ac felly mi wnaethom ni ddarlunio, addasu ac addurno dillad ein hunain, teipio geiriau i ddisgrifio gwisg ein ffrind, ymarfer symudiadau er mwyn bod yn barod i berfformio ac yna bod yn ddewr ac yn greadigol wrth berfformio i'n teuluoedd yn y neuadd wrth iddynt fwynhau canapés a dŵr pefriog! Am brofiad bythgofiadwy!

Amser Nadolig roedden ni wrth ein boddau yn mynd i weld sioe theatr o'r enw 'Dawns y Ceirw'. Hwn oedd profiad cyntaf llawer iawn ohonom ni i'r theatr ac roedd yn atgof i'w drysori. Roedden ni yn ffodus i gael gweithdy dawns gyda'r cwmni cyn i ni fynd a wnaeth gyfoethogi ein profiad hyd yn oed yn fwy.
Trwy ddatblygu sgiliau cerddorol wrth ganu a chwarae offerynnau i gerddoriaeth Affricanaidd, ysgrifennu storiâu ac erthyglau papur newydd a dysgu ein tablau mae

wedi bod yn flwyddyn brysur dros ben. Rydym wedi dechrau ein siwrne o ddysgu yn y Saesneg dros yr wythnosau olaf ym mlwyddyn 2 - mae pawb yn barod nawr am yr her o ddysgu drwy'r ddwy iaith ym mlwyddyn 3. Blwyddyn llawn hwyl a sbri yn wir!

**Manawydan**

Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl ym mlwyddyn 2! Rydyn ni wedi mwynhau creu llawer o bethau crefft fel mygydau Affricanaidd, gwehyddu a chreu mynyddoedd gyda papier mâché. Gaethon ni brofiad gwych wrth greu gwisgoedd a gwneud Sioe Ffasiwn o flaen ein rhieni! Yn ein gwersi STEM cynllunion ni drenau ac yna eu creu er mwyn gweld pa mor bell y gallen nhw deithio. Roedd yr arbrawf yn gymaint o hwyl! Dysgon ni lawer o bethau newydd yn ein gwersi mathemateg hefyd a'u defnyddio i ddatrys nifer fawr o broblemau! Dysgon ni nifer fawr o dablau hefyd! Mwynheuon ni ein tripiau gwych o amgylch Caerdydd, y Bannau Brycheiniog ac i Sw Arch Noa. Rhai o'n hoff bethau eraill oedd dysgu dawns Affricanaidd, perfformio'r gân Banua gydag offerynnau taro a Diwrnod Mabolgampau! Gaethon ni hefyd hwyl yn ymarfer a pherfformio ein Sioe Nadolig Y Goeden Fach Hardd o flaen ein rhieni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ganu yn y Sioe Haf yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd y flwyddyn nesaf pan fyddwn ni ym mlwyddyn 3!




**Tristan**

Rydyn ni wedi mwynhau dysgu am lawer o bynciau diddorol, yn enwedig am y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Yn ystod y flwyddyn, cawson ni'r cyfle i ymweld â Chaerleon a Sain Ffagan. Fe wnaethon ni fwynhau ymweld â 'r baddondai a'r amffitheatr Rhufeinig. Rydyn ni wedi mwynhau creu tŷ Celtiaid allan o glai a chreu cert Rhufeining. Rydyn ni'n hoffi rhannu ein syniadau i'w rhoi ar wal 'Llais y Plentyn'.

Rydym hefyd wedi mwynhau cymryd rhan wrth ddathlu diwrnodau arbennig fel cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol, perfformio yn Dydd Miwisg Cymru, canu yn y cyngerdd Nadolig, cystadlu yn mabolgampau'r ysgol a gorffen y flwyddyn wrth berfformio Shrec gyda blynyddoedd 4, 5 a 6 -roedd yn brofiad gwych. Rydyn ni hefyd wedi mwynhau dysgu chwarae'r 'Toots' a chyd-chwarae'r 'Toots' gydag ysgolion eraill yng Nghaerdydd yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd.

Cawson ni'r cyfle i gael gwersi nofio ym Mlwyddyn 3 yn y MET ac fe wnaethon ni fwynhau datblygu ein sgiliau nofio mas draw.  Caswon ni gyfle hefyd i ddatblygu ein sgiliau athletau yn y MET oedd yn fendigedig.  Ym Mlwyddyn 2, roedden ni mewn dosbarthiadau gwahanol. Rydyn ni wedi mwynhau'r profiad o gael ein cymysgu cyn dod i Flwyddyn 3, oherwydd ein bod ni wedi cael y cyfle i greu llawer o ffrindiau newydd.

**Esyllt**

Rydyn ni wedi mwynhau llawer o brofiadau cyffrous ym mlwyddyn 3. Cawson ni amser arbennig yn ymweld â Phrifysgol Met Caerdydd i gael gwersi nofio, athletau, tenis a phêl fasged. Dysgon ni lawer o sgiliau newydd. Roedden ni hefyd wedi mwynhau cael y cyfle i ymweld â Sain Ffagan i ddysgu mwy am sut oedd y Celtiaid yn byw. Roedd y tai crwn Celtaidd yn ddiddorol iawn!

Yn ystod yr ail dymor, cawson ni brofiad arbennig o ddysgu sut i chwarae'r Toots yn ein gwersi wythnosol, roedd pawb yn gyffrous iawn wrth berfformio yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd. Roedden ni hefyd wrth ein boddau yn ymarfer a pherfformio ar gyfer ein sioe Shrec.

Yn ein gwersi STEM, cawson ni'r cyfle i gynllunio llawer o ymholiadau diddorol, ein hoff un oedd defnyddio trydan i oleuo bwlb a gwneud i fodur symud! Rydyn ni wedi mwynhau bod yn greadigol wrth greu mosaics Rhufeinig a chreu tŷ crwn allan o glai. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith mathemateg ddiddorol ac wedi mwynhau gweithio ar Sumdog.

Mwynheuon ni ein thema 'Y Rhufeiniaid', yn enwedig dysgu am Gaerleon a sut oedd y Rhufeiniad yn byw yng Nghymru. Roedd ein taith i Gaerleon yn wych, dysgon ni am hanes y baddonau a sut oedd y Rhufeiniaid yn gwylio sioeau yn yr amffitheatr. Roedd y gweithdy caethweision yn anhygoel ac roedd cyfle i ni wisgo lan mewn gwisgoedd Rhufeinig!

Ein hoff lyfrau dosbarth eleni oedd The Bog Baby, Henri Helynt ac Escape from Pompeii. Cawson ni amser arbennig yn creu ffilm i hysbysebu'r ysgol. Fel rhan o'n thema 'Teithio' roedden ni wedi mwynhau clywed Mr Thomas yn siarad am ei swydd fel peilot. Roedden ni hefyd wedi dysgu llawer am anturiaethau Lowri Morgan yn yr Amazon. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ein parti dosbarth gyda sioe dalent a llawer o gemau gwych.




**Olwen**

Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl ym mlwyddyn 4. Mwynhaeon ni ein trip i Gastell Caerdydd, lle cawsom daith o amgylch y castell a dysgu llawer o ffeithiau diddorol. Ein themâu tymor yr Hydref oedd Cestyll Cymru ac Ymosod ac Amddiffyn. Cawsom lawer o hwyl yn dysgu am gestyll ond yr uchafbwynt i ran fwyaf y dosbarth oedd creu catapwlt. Roedd y trip i Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd i weld y Sioe Culhwch ac Olwen yn dda. Daeth y Nadolig unwaith eto ac fe wnaethon ni fwynhau perfformio yn ein gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Glenwood.

Yn nhymor y Gwanwyn ein themâu oedd Popeth yn Wyrdd a Dyluniadau Mawreddog! Dysgon ni am lyfr 'There's a Rang-Tan in My Bedroom'. Roedd neges y llyfr yn bwysig iawn ac roedd y dosbarth wedi cael eu hysbrydoli i ysgrifennu llythyron i Gyngor Caerdydd. Dysgom am dai eco a chawsom y cyfle i greu tai eco. Mwynheuon ni'r gwasanaeth a'r gweithdy gan Ddŵr Cymru. Daeth yr ysgol ynghŷd i ddathlu dydd Gŵyl Dewi ac yr Eisteddfod Ysgol. Mwynheuon ni gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn yr Eisteddfod Ysgol yn enwedig canu Aderyn Melyn. Roedd blwyddyn 4 yn lwcus iawn i gael y cyfle i fynd ar raglen deledu newydd o'r enw Taclo'r Tywydd. Cawsom lawer o hwyl yn recordio ac rydym yn edrych ymlaen at wylio ein pennod ni ym mis Medi. Uchafbwynt arall oedd cael gwersi Clarineo gyda Mr Murphey.

Yn nhymor yr haf ein themâu oedd Bwyd o Bedwar Ban Byd a Dewch i Wledda! Darllenom y llyfr Charlie and the Chocolate Factory ac edrychon ni ar daith banana Masnach Deg. Roedd yr arbrawf gwyddoniaeth ar ba ddiodydd sydd yn niweidio ein dannedd yn ddiddorol. Roedd y canlyniadau wedi dysgu gwers bwysig i ni am hylendid a siwgr. Mwynheuon ni bob eiliad o'n Mabolgampau er ein bod wedi blino'n lan erbyn diwedd y dydd! Edrychon ni ar waith yr artist Tomos Roberts a chawsom sioc i ddarganfod bod Mr Roberts yn chwarae'r gitâr yn ein Sioe Shrec. I

orffen mae’n rhaid sôn am berfformio'r sioe, Shrec. Cawsom lawer o hwyl yn canu. Mae wedi bod yn flwyddyn fendigedig; rydyn ni wedi mwynhau ym mlwyddyn 4.

**Culhwch**

Rydym wedi cael blwyddyn brysur ond llwyddiannus ym Mlwyddyn 4, yn llawn ystod eang o brofiadau cyfoethog. Un uchafbwynt oedd mynd ar drip i gastell Caerdydd, a oedd yn cysylltu’n berffaith gyda’n thema cyffrous ar Gestyll Cymru. Fe wnaethon ni hefyd fwynhau mynd i wylio’r pantomeim ‘Culhwch ac Olwen’, ac roedd dysgu sut i chwarae’r Clarineo yn uchafbwynt cerddorol. Rydym wedi derbyn nifer o gyfleoedd i berfformio ac i ddatblygu ein creadigrwydd a’n hyder yn ystod y flwyddyn, drwy ymarfer ar gyfer sioe CA2 ‘Shrec’, yn ogystal â pherfformio yng ngwasanaeth Nadolig Blwyddyn 3 a 4, ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr ysgol a chanu yn Jambori’r Urdd. Fe wnaethon ni hefyd fwynhau dysgu am y gylchred ddŵr, yn enwedig pan ddaeth Dŵr Cymru i mewn i siarad gyda ni am eu rôl bwysig nhw fel rhan o’r broses. Rydym wedi derbyn nifer o gyfleoedd i ddatblygu ein sgiliau cydweithio eleni hefyd, fel y cyfleoedd i adeiladu catapwlt, tyrbinau gwynt a thai eco-gyfeillgar. Roedd ein uned o waith ar newid hinsawdd o ddiddordeb mawr i ni, ac fe wnaethon ni wir fwynhau dysgu am olew palmwydd cynaliadwy a sut allwn ni wneud gwahaniaeth i’n byd. Rydym hefyd wedi mwynhau datblygu ein sgiliau criced, tenis a rygbi gyda Met Caerdydd, Criced Morgannwg a Chlwb Chwaraeon Mackintosh, a chawsom hwyl mawr ar ddiwrnod y Mabolgampau. Un o uchafbwyntiau mwyaf y flwyddyn oedd derbyn y cyfle i fynd i ffilmio rhaglen Stwnsh newydd o’r enw ‘Taclo’r Tywydd’ - profiad bythgofiadwy! Yn wir, mae hi wedi bod yn flwyddyn llawn dysgu, creadigrwydd a hwyl.




**Macsen**

Eleni rydym wedi mwynhau nifer o brofiadau newydd. Rhai o'n hoff bethau oedd mynd ar gwrs preswyl i Abernant a chael cyfle i drio padlfyrddio, ffensio a gweithgareddau ar y llyn. Rydym hefyd wedi mwynhau mynd i weld 'A Christmas Carol' yn Theatr y Sherman, mynd i Ŵyl y Gelli a gwrando ar awduron yn siarad am eu llyfrau, mynd ar daith tan ddaearol i Bwll Mawr a chael gwers Fictoraidd yn Ysgol Maestir, Sain Ffagan. Rydym hefyd wedi dysgu sgiliau newydd mewn gwersi STEM gyda chwmni e-ysgol. Rydym wedi mwynhau ein sesiynau gyda Met Caerdydd, lle rydym wedi cael y cyfle i ddatblygu ein sgiliau hoci. Rydyn ni hefyd wedi mwynhau datblygu ein creadigrwydd mewn gwersi celf eleni.

Mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous i ni wrth ddysgu am y Chwyldro Diwydiannol, datblygu ein sgiliau digidol wrth ddefnyddio Mircobits a chreu gwefan gan ddefnyddio Canva ac Adobe. I orffen y flwyddyn cawson ni hwyl yn perfformio fel rhan o gorws yn ein sioe 'Shrec'.

**Elen**

Yn sicr, rydym wedi cael nifer o brofiadau newydd eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous i ni wrth ddysgu am y Chwyldro Diwydiannol. Rydym wedi datblygu ein sgiliau digidol wrth ddefnyddio Mircobits, Hour of Code a chreu gwefan yn ogystal â defnyddio Canva ac Adobe. Mae nifer o wersi yn aros yn ein cof fel ein gwersi ar ddyfeisio dyfais newydd ar gyfer ein cyflwyniadau *Dragon's Den* a phawb yn cael tro i fod yn ddraig! Rydym hefyd wedi dysgu sgiliau newydd mewn gwersi STEM gyda chwmni e-ysgol a darganfod pa hylif sy'n golchi ceiniogau orau. Doedden ni ddim yn gallu credu mai sos coch fyddai'n gwneud i'r ceiniogau ddisgleirio! Roedd rhai ohonom yn lwcus i gael mynd i'r stiwdio. Rydym wedi mwynhau ein sesiynau gyda Phrifysgol Met Caerdydd, lle rydym wedi cael y cyfle i ddatblygu ein sgiliau hoci. Un o

uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd mynd ar daith breswyl i Abernant a chael aros yn yr un ystafell a'n ffrindiau! Cawsom gyfle i ddringo, padl fyrddio, ffensio a chanŵio.

Roedd mynd i wylio *'A Christmas Carol'* yn Theatr y Sherman yn brofiad gwych a oedd yn clymu mewn i'n thema. Pan aethom i Ŵyl y Gelli cawsom gwrdd ag awduron a gwrando arnynt yn siarad am eu llyfrau. Cawsom ein hysbrydoli i ddarllen llyfrau Anni Llŷn, Catherine Rundell a Jules Howard. Wrth fynd ar daith tanddaearol i Bwll Mawr rydym yn cofio pan oedd pawb yn diffodd golau eu helmed a'r synau byddarol oedd gan y peiriannau. Roedd yn gyfle i ni wir ddeall pa fath o amodau oedd y glowyr yn gweithio ynddynt. Cawsom gyfle i wisgo lan a phrofi gwers fel disgybl yn yr Oes Fictoraidd yn Ysgol Maestir, Sain Ffagan. I orffen y flwyddyn cawson ni hwyl yn y mabolgampau yn enwedig y rasys cyfnewid ac wrth gwrs perfformio fel rhan o gorws yn ein sioe 'Shrec'.




---

**Math & Mathonwy**

Rydyn ni wedi dysgu cymaint eleni — o gelf i wyddoniaeth, hanes i dechnoleg, a phob pwnc arall! Un o'n hoff bynciau oedd dysgu am Fae Caerdydd a'r dociau. Daeth yr hanes yn fyw drwy'r sioe Betty Campbell gan *Mewn Cymeriad*. Roedd *Planet or Plastic* hefyd yn ffefryn, lle dysgon ni am bwysigrwydd gofalu am ein planed, a chlywon ni Beth a Bethel yn siarad am ailgylchu ar *Newyddion Ni* ar S4C. Cawsom wasanaeth gan Dŵr Cymru ac ymwelon ni â Chanolfan Addysg Cilfynydd i ddysgu mwy am arbed dŵr.

Roedd Wythnos STEM yn llawn eiliadau cyffrous! Cawsom sesiynau ymarferol gyda Sparklab Cymru, a choronwyd tîm Lego League yn bencampwyr! Fe wnaethon ni lawer o arbrofion, gan gynnwys creu glŵp, hedfan awyrennau papur, dylunio ac

adeiladu cychod i ddal 1Kg, ac adeiladu car ffrâm bren gyda hwyl i weld pa un a fyddai'n mynd y pellaf – gwyddoniaeth ar waith!

Fe wnaeth llyfrau ein tywys ar anturiaethau anhygoel eleni. Ysgrifenon ni ein llyfrau ein hunain am *Cefin y Carotsen: Ar Goll* gyda chymorth AI! Cawsom fwynhad mawr yn darllen Y Crwt Yn Y Cefn, *The Lost Bear* a *Ta-ta Tryweryn*. O gylchoedd darllen boreol i wisgo lan ar Ddiwrnod y Llyfr, roedden ni i gyd wedi ein cyfareddu! Roedd ymweliad â Gŵyl y Gelli'n uchafbwynt – cwrddon ni â MC Grammar ac roedd pawb wrth eu boddau yn gweld Sheighley yn dawnsio ar y llwyfan gydag ef!

Roedd ein trip i Langrannog yn uchafbwynt ENFAWR – cartio, sgïo, trampolinio, ac wrth gwrs y disgo lle'r oedd pawb yn canu ac yn dawnsio gyda'i gilydd! Gwnaethon ni fideos *stop motion* o'n hoff weithgareddau. Cawson ni hefyd wersi Almaeneg difyr gyda Mr Waters a chyfarfodydd pontio gyda'n hathrawon newydd ym Mro Edern.

Roedd Y Ffrindiau yn brysur drwy'r flwyddyn – o'r Disgo Calan Gaeaf i'r Ffair Haf (er bod rhai ohonom yn colli hwnnw gan ein bod yn gwersylla gyda'n gilydd!). Roedd *Diwrnod y Enfys* yn ddathliad lliwgar gyda raffl wych a naws hyfryd.

Rydyn ni yn dathlu ein hunaniaeth Gymraeg drwy gydol y flwyddyn. Cymeron ni i gyd ran yn yr Eisteddfod Ysgol, a bu'r Seremoni Cadeirio ar Ddydd Gŵyl Dewi'n achlysur arbennig – gyda Sam, Martha a Hannah yn cael eu cydnabod am eu cerddi arbennig. Roeddem wrth ein bodd yn gwylio *Stwnsh* ar S4C ar ddyddiau glawog – yn enwedig pan ddaethon nhw i'r ysgol a thaflu pei at Mr Williams (un o uchafbwyntiau Blwyddyn 6 yn sicr!). Cystadlodd llawer yn Eisteddfod yr Urdd ac fe ddathlwyd Diwrnod Cerddoriaeth Cymru gyda carioci yn y neuadd. Daeth *Paralel*, band o gyn-ddisgyblion Y Berllan Deg, i berfformio'n fyw – gan ysbrydoli cerddorion ifanc. Roeddem hefyd yn hynod falch o gefnogi Tîm Pêl-droed Merched Cymru yn yr Ewros – gwisgon ni goch, canon ni *Ymlaen*, ac ysgrifenon ni areithiau i'w hysbrydoli yn y Swistir. Cymru am byth!

Mae chwaraeon wedi ein cadw'n brysur drwy'r flwyddyn - o rygbi a chriced i bêl-rwyd a phêl-droed. Cawson ni wythnos o sesiynau beicio i ddysgu sut i fod yn ddiogel ar y ffordd cyn symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Roedd Hannah a Catrin yn rhan o'r tîm cyflymaf yng nghystadleuaeth traws gwlad Urdd Caerdydd a'r Fro. Darparodd Met Caerdydd sesiynau chwaraeon dan do gwych. Roedd Mrs John yn falch iawn o'r timau pêl-rwyd cymysg a merched yn nhwrnamentau'r Urdd. Cystadlodd timau pêl-droed y bechgyn a'r merched hefyd – gyda'r bechgyn yn cyrraedd rownd derfynol CVSFA gyda Mr Williams! A thrwy ryfeddod... enillodd *Teifi* ar Ddiwrnod Chwaraeon am y tro cyntaf ers i ni fod yn YBD!

Roedd Cynghorau'r Ysgol ac Eco, y Dreigiau a'r Arweinwyr Digidol brysur iawn hefyd – gyda Macsen & Inessa, Bethel & Hannah, Gruff a Seren yn arwain llawer o gyfarfodydd gyda'u syniadau gwych. Rydyn ni wedi mwynhau gweithio yn yr ardd – plannu, chwynnu, gwerthu cynnyrch a hyd yn oed gwneud smwddis o'r Berllan Fechan – afalau, lafant, nionod a mwy, dan arweiniad Mrs Bull.

Yn olaf, roedd ein hochr greadigol yn disgleirio eleni. O'n cyngerdd Nadolig yn Eglwys Glenwood i ganu yn yr Eisteddfod, cafwyd digon o gyfle i berfformio. Helpodd gweithdy drama gyda Rhodri Trefor ni i ddeall profiadau ffoaduriaid, a daeth ein gwaith drama am Dryweryn â hanes Capel Celyn yn fyw. Cystadlodd llawer o ddisgyblion ym meysydd canu, adrodd, actio, celf, crefft a hyd yn oed coginio yn Eisteddfodau'r Ysgol a'r Sir. Mae nifer ohonom wedi parhau â'n gwersi gitâr, fiolin a phiano, a pharhaodd y Clwb Drama i fod yn boblogaidd iawn. Cawsom y fraint o wylio *Swyn y Gân* gan Fro Edern hefyd. Ond y sioe fwyaf... bydd ein perfformiad ein hunain o *Shrec* – canu *Rwyf yn Credu* a *Dyma ein Stori* yn aros yn ein cof am byth!

Roedd yn drist dweud ffarwel wrth Mr Williams, a chwaraeodd ran mor bwysig yn ein blwyddyn olaf, ond rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Mr Jones am gamu i'r adwy.

Mae wedi bod yn flwyddyn anghofiadwy, yn llawn chwerthin, dysgu ac atgofion arbennig – wrth i ni baratoi ar gyfer y bennod nesaf... yr ysgol uwchradd!

**STAFF Medi 2025**

| | |
|---|---|
| Meithrin: | Catrin Williams-Jones |
| Derbyn (Pwyll): | Angharad Walpole |
| Derbyn (Rhiannon): | Heledd Symons / Rhian Thomas |
| Blwyddyn 1 (Branwen): | Eleri Browning |
| Blwyddyn 1 (Llŷr): | Betsan Jenkins |
| Blwyddyn 2 (Manawydan): | Lucy Thomas / Sioned Wyn Jones |
| Blwyddyn 2 (Pryderi): | Caryl Parry |
| Blwyddyn 3 (Esyllt): | Kellie Atkins |
| Blwyddyn 3 (Tristan): | Rhian Llewelyn Jones |
| Blwyddyn 4 (Olwen): | Manon James |
| Blwyddyn 4 (Culhwch): | Ffion O'Brien |
| Blwyddyn 5 (Macsen): | Iestyn Greenway / Medi Davies |
| Blwyddyn 5 (Elen): | Lowri Glyn Jones |
| Blwyddyn 6 (Math): | Emyr John |
| Blwyddyn 6 (Mathonwy): | Lowri John |
| Cydlynydd ADY: | Non Roberts |
| Athrawon CPA: | Amy Bull / Lucy Corbett |

Mae'r athrawon o'r un flwyddyn addysgu yn parhau i gael amser CPA ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb, datblygiad a thrafodaethau cyson ymhlith yr athrawon.

**Cynorthwywyr / Ymyraethau Dysgu:**

Meryl Davies (0.8), Dewi Rhisiart (0.6), Lucy Corbett, Veronica Jones de Kiff (0.6), Maxine Curtis (0.8), Alyson Ray (0.8), Louise Holmes (0.6), Aimee Marriage, Emily Blofield, Lleucu Evans

**NIFEROEDD YM MHOB BLWYDDYN MEDI 2025**

| | | |
|---|---|---|
| Meithrin - | Bore | 24 |
| | P'hawn | 20 |
| Derbyn - | | 47 |
| Blwyddyn 1 - | | 50 |
| Blwyddyn 2 - | | 41 |
| Blwyddyn 3 - | | 54 |
| Blwyddyn 4 - | | 41 |
| Blwyddyn 5 - | | 55 |
| Blwyddyn 6 - | | 57 |

Cyfanswm y disgyblion llawn amser (Derbyn – Bl6) = 345
Cyfanswm y disgyblion Meithrin – Bl6 = 389

## RHODDION I ELUSENNAU

### Banc Bwyd Caerdydd

Fel rhan o'n casgliad diolchgarwch casglwyd 93.5kg o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd ym mis Hydref 2025, sef digon i ddarparu 3 pryd y dydd ar gyfer 8 person am 3 diwrnod.

### Plant Mewn Angen - £367

Trefnodd Cyngor yr Ysgol weithgareddau hwyliog ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo smotiau neu ddillad nos a chodwyd £367 tuag at yr achos da.

### Achub y Plant - £92.87

Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo siwmperi Nadolig a chodi £92.87 ar gyfer Achub y Plant.

### Gwasanaethau Nadolig – Macmillan = £422.93; Arch Noa= £402.30

Braf oedd cael gweld plant yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngherddau Nadolig ar sawl achlysur – cyngerdd plant y Derbyn, sioe Nadolig Bl 1 a 2 (2 sioe), cyngerdd plant Meithrin (2 gyngerdd), gwasanaethau carolau Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6 yn Eglwys Glenwood, Llanedeyrn. Casglwyd £422.93 tuag at Macmillan mewn un gwasanaeth a £402.30 tuag at Arch Noa yn y llall. Bu Blwyddyn 1 hefyd yn casglu teganau a nwyddau at yr elusen Llamau el rhan o'u gwaith dosbarth.

## DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD A GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

### Arolygiad Estyn Mawrth 2025

Rydym yn falch iawn o adroddiad Estyn a oedd y cadarnhau y gwaith da sydd yn digwydd yn yr ysgol ac yn adlewyrchu "amgylchedd dysgu gofalgar, croesawgar ac ysbrydoledig" yr ysgol a "chymuned hapus lle mae parch a hunaniaeth Gymreig yn cael eu gwerthfawrogi." Mae'n canmol ymddygiad ac agweddau cadarnhaol y plant tuag at ddysgu, perthynas gadarnhaol pob aelod o staff gyda'r disgyblion ac yn nodi bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws y meysydd.

Mae'r argymhellion ar gyfer gwella ar gynllun gwella yr ysgol ar gyfer 2025-2026 ac rydym wedi rhoi mesurau diogelwch mewn lle yn dilyn yr arolygiad trwy sicrhau fod prif giatiau allanol yr ysgol ar glo yn ystod y dydd. Rydym mewn trafodaethau gyda'r awdurdod ar hyn o bryd i gael mesurau mwy parhaol mewn lle er enghraifft, giatiau awtomatig.

### Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi

Cynhaliwyd eisteddfod ysgol gyfan eleni gyda llysoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y neuadd. Cynhaliwyd seremoni cadeirio'r bardd yn neuadd yr ysgol yn y prynhawn a phleser oedd gweld disgybl Blwyddyn 6 yn ennill am ysgrifennu barddoniaeth.

### Cwricwlwm i Gymru / Cysylltiadau Ag Ysgol Bro Edern

Mae holl ysgolion clwstwr Bro Edern wedi bod yn cydweithio yn agos yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar greu cwricwlwm newydd yn unol â Chwricwlwm i Gymru sy'n statudol ers Medi 2022. Mae cyfarfodydd gan aelodau perthnasol o staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd i gynllunio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm newydd gyda'r 4 diben yn ganolog i'r cynlluniau.

### Bwyd a Ffitrwydd / Blas am Oes (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)

Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore. Oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion gydag alergeddau ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chnau i'r ysgol.

Mae disgyblion y Meithrin i Flwyddyn 2 yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr ar gael i'w yfed trwy'r dydd. Gofynnir i bob plentyn ddod â photel ddŵr i'r ysgol gydag enw'r plentyn wedi ei ysgrifennu yn glir arni. Bydd y poteli yn cael eu gyrru gartref i'w golchi yn ddyddiol a disgwylir nhw yn ôl yn yr ysgol bob bore.

Mae'r holl ddisgyblion yn parhau i redeg eu 'milltir y dydd' er mwyn cadw'n iach a heini ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio yn well yn y dosbarth.

Mae disgylion Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 hefyd yn brwsio eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol.

**Diwrnod y Llyfr**
Cafodd yr holl ddisgyblion hwyl yn dathlu darllen gyda llawer o weithgareddau hwyliog wedi eu trefnu, gan gynnwys cyfnewid llyfrau a'r plant hynaf ac athrawon yn mynd i ddosbarth gwahanol i ddarllen stori. Pwrpas y diwrnod oedd hyrwyddo darllen a dangos y gall darllen fod yn hwyl.

**Dydd Miwsig Cymru**
Cawsom lawer o hwyl yn dathlu cerddoriaeth Cymru trwy wrando ar gerddoriaeth byw yn y neuadd a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau wedi eu trefnu gan y Dreigiau.

**Eisteddfod yr Urdd**
Cafodd yr ysgol lwyddiant yn Eisteddfod Gylch yr Urdd eleni gyda nifer o ddisgyblion yr ysgol hon yn fuddugol ac yn cynrychioli'r ardal hon yn yr Eisteddfod Sir.

**COGURDD**
Fel rhan o gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd, cynhaliwyd rownd gyntaf cystadleuaeth coginio Blynyddoedd 4,5 a 6 yn y neuadd ym mis Hydref 2024 a bu disgybl Blwyddyn 6 yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd ranbarthol.

**Cyrsiau Preswyl**
Treuliodd Blwyddyn 6 wythnos yn Llangrannog gydag ysgolion y clwstwr a chafodd Blwyddyn 5 y cyfle unwaith eto i aros am 2 noson yng nghanolfan awyr agored Abernant yng nghanolbarth Cymru .

**Prydau Ysgol Am Ddim**
Erbyn hyn mae holl ddisgyblion y dosbarthiadau derbyn, Blwyddyn 1,2,3,4,5 a 6 yn cael cynnig cinio ysgol am ddim. Dewis y rhieni yw derbyn y cynnig neu ddarparu pecyn bwyd eu hunain i'w plentyn.

**Senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd**
Roedd aelodau'r cyngor ysgol yn ffodus iawn i allu mynychu cyfarfodydd Senedd ysgolion Cymraeg Caerdydd ym Mae Caerdydd yn ystod y flwyddyn.

**Sesiwn i Rieni Am Niwroamrywiaeth**

Diolch i Mrs Bethan Jones (athrawes ymgynghorol awtistiaeth yr awdurdod) am gynnal prynhawn diddorol i rieni ar Niwroamrywiaeth yn neuadd yr ysgol ac hefyd am ddod i drafod hyn gyda disgyblion Blynyddoedd 3-6. Roedd yn gyfle i rieni wybod mwy am y llwybr niwroddatblygiadol a pha gefnogaeth sydd ar gael gan yr ysgol a'r awdurdod.

**Sesiwn i Rieni Am Reoli Emosiynau Mawr**

Diolch i Mr Gareth Jones (athro ymgynghorol lles yr awdurdod) am gynnal sesiynau diddorol i rieni ar sut i ymateb pan fydd eu plant yn arddangos emosiynau mawr yn y cartref.

**Ymwelwyr ac Ymweliadau**

Roedd hi'n braf iawn gweld bod nifer o ymweliadau wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Gŵyl y Gelli, Theatr y Sherman, Sain Ffagan, Pwll Mawr, Llangrannog (cwrs preswyl), Abernant (cwrs preswyl) Crucial Crew, Met Caerdydd, cronfa ddŵr Cilfynydd, Caerleon, Sŵ Arch Noa ym Mryste, Castell Caerdydd a thraeth Rest Bay ym Mhorthcawl. Fe wnaeth y disgyblion hefyd elwa o ymwelwyr â'r ysgol gan gynnwys gweithdai diogelwch a sioeau am hanes Cymru gan gwmni theatr Mewn Cymeriad.

**Wythnos STEM**

Trefnwyd wythnos STEM yn yr ysgol unwaith eto ym mis Mawrth 2025 gyda phob blwyddyn yn cynnal gweithgareddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn seiliedig ar thema'r tymor.

**Sioe Haf Blwyddyn 3,4,5 a 6 - Shrec**

Roedd gwylio sioe Blwyddyn 3,4,5 a 6 yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd ar ddiwedd tymor yr haf yn wefreiddiol. Cafwyd sioe o safon uchel ac mae ein diolch yn fawr i'r holl staff am gyfrannu at lwyddiant y sioe a rhoi profiad mor gofiadwy a gwerthfawr i'r plant.

## CYSWLLT GYDA RHIENI

### FFRINDIAU

Mewn cyfnod anodd yn ariannol i ysgolion mae gwaith caled y Ffrindiau i godi arian wedi bod yn greiddiol i allu prynu adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr ysgol ac mae ein diolch yn fawr iddynt unwaith eto eleni am godi swm anhygoel o £14,568. Gwariwyd yr arian ar gael gemau wedi eu paentio ar yr iard fawr, offer chwaraeon offer Lego Spikes ac offer ddatblygu sgiliau gwaith coed yn y blynyddoedd cynnar. Hefyd, rhoddwyd swm penodol o arian i bob athro dosbarth i archebu adnoddau a fydd yn hybu annibyniaeth trwy gydol yr ysgol.
Trefnodd y Ffrindiau hefyd ffair haf llwyddiannus iawn unwaith eto ar dir yr ysgol i godi arian i'r ysgol. Maent hefyd wedi bod yn brysur trwy gydol y flwyddyn yn casglu a gwerthu gwisg ysgol ail-law, crysau-t chwaraeon yn lliwiau llysoedd yr ysgol a hetiau bwced gyda logo'r ysgol arnynt ar gyfer yr haf.

### PRYNHAWNIAU AGORED I DDARPAR DEULUOEDD

Cynhaliwyd prynhawniau agored llwyddiannus iawn i ddarpar rieni a'u plant 2-4 oed yn yn ystod y flwyddyn i geisio denu mwy o deuluoedd i'r ysgol ac i addysg Gymraeg.

### Gwersi Cymraeg i Rieni

Cynigwyd gwersi Cymraeg i rieni yn rhad ac am ddim i rieni Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn neuadd yr ysgol a'r Berllan Fechan. Trefnwyd y gwersi hyn gan Goleg Caerdydd a'r Fro a byddwn yn gallu cynnig hyn eto yn nhymor yr Hydref 2025 gyda'r ffocws ar fathemateg a rhifedd y tro hwn.

### Sesiynau Coginio I Rieni

Roedd yn braf gallu croesawu swyddog o Fenter Caerdydd i'r ysgol am 6 sesiwn i gyflwyno a choginio rysieitiau addas i deuluoedd a dysgu ychydig o Gymraeg ar yr un pryd. Roedd pawb a fynychodd pob sesiwn wedi derbyn 'slow cooker' ar ddiwedd y cwrs.

## CYSWLLT GYDA'R GYMUNED

### Gwirfoddolwyr Darllen

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwirfoddolwyr darllen sydd yn parhau i ddod i'r ysgol bob bore Llun a Mawrth i ddarllen gyda disgyblion Bl5 a 6.

### Menter Caerdydd

Cynhaliwyd darpariaeth gofal plant a Bwrlwm (sesiwn chwarae 2 awr rad ac am ddim trwy gyfrwng y Gymraeg) yn llwyddiannus iawn gan Fenter Caerdydd yn ystod y rhan fwyaf o'r gwyliau ysgol gyda nifer fawr o blant yn mynychu.

### Gweithgareddau Chwaraeon a Chystadlaethau Amrywiol

Roedd yn bleser unwaith eto gweld timau'n cynrychioli'r ysgol mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon lleol a rhanbarthol.

Mynychodd disgyblion Blwyddyn 3 wersi nofio a chwaraeon amrywiol ym Met Caerdydd.

Yn ystod y flwyddyn bu Blwyddyn 6 ar gwrs preswyl 4 noson i ganolfan yr Urdd Llangrannog gydag ysgolion eraill clwstwr Bro Edern a bu Blwyddyn 5 yng Nghanolfan Abernant am ddwy noson.

Cafodd Blwyddyn 6 fudd o wersi beicio a drefnwyd gan gyngor Caerdydd ym mis Hydref 2022.

Mae pob dosbarth yn parhau i redeg milltir bob dydd. Y bwriad yw cadw'r disgyblion yn heini a'u helpu i ffocysu yn well yn y dosbarth.

### Cysylltiadau Rhyngwladol

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 wersi Almaeneg bob pythefnos gan athro o Ysgol Bro Edern.

### Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Parhaodd y cynllun brecwast, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i fynd o nerth i nerth ac mae'n llawn ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o ddisgyblion wedi cael lle yn y cynllun hwn, cafodd pob rhiant gyfle i gofrestru ar-lein. Pwrpas y cynllun yw cyflenwi brecwast i'r rhai na fyddent yn cael brecwast gartref fel arall.

## Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ers Mis Medi 2021, mae fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig wedi ei ddisodli gan system newydd a diwygiedig o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mrs Non Roberts yw cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/2025 bu'r rhan fwyaf o'r cynorthwywyr yn ei chynorthwyo. Maent yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Defnyddir nifer o ymyraethau amrywiol i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

Nodwyd yn adroddiad arolygiad Estyn bod yr "ysgol yn cynnig cefnogaeth effeithiol I ddisgyblion ag angehnion dysgu ychwanegol, gan sicrhau bod cynlluniau dysgu'n cael eu haddasu i'w hangehenion unigol".

## Cyfleoedd Cyfartal

Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

## Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

## Polisïau

Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda Miss Phillips.

## Iechyd a Diogelwch

Diogelir y drysau allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.

Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

Yn dilyn arolygiad Estyn ym mis Mawrth 2024 mae giatiau allanol yr ysgol ar glo trwy gydol y dydd. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r awdurdod i drefnu bod giatiau electronig yn cael eu gosod ac mae mesuriadau diogelwch yn barod wedi eu rhoi mewn lle tu fewn i'r adeilad i gryfhau'r mesurau diogelwch a oedd eisoes yn bodoli.

## Toiledau

Mae digon o doiledau o amgylch yr ysgol ac fe'u glanheir o leiaf unwaith y dydd. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl.

## Bws Ysgol

Mae'r gwasanaeth bws 822 drwy Benylan i'r ysgol wedi ei ymestyn erbyn hyn ac yn cael ei ariannu yn rhannol gan Gyngor Caerdydd. Mae modd archebu lle ar y bws a chael mwy o fanylion drwy gysylltu gyda chwmni New Adventure Travel ar 02920442040. Mae defnyddio bws yn gyfleus ac yn ffordd dda o osgoi traffig ar y ffyrdd neu broblem parcio y tu allan i'r ysgol. Mae hefyd yn ffordd dda i helpu gwella'r amgylchedd yn lleol trwy leihau llygredd o geir sydd yn teithio i ac o'r ysgol.

## GWERTHUSIAD O GYNLLUN GWELLA YSGOL 2024-2025

### BLAENORIAETH 1 – Sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn unigolion iach, hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus drwy barhau i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;

*Mae ysgolion y clwstwr wedi bod yn gweithio yn agos i ddatblygu cwricwlwm perthnasol i ddisgyblion y rhan hon o'r ddinas, gan gynnwys cyflwyno cynllun genres Iaith a mapio medrau llafaredd. Rydym hefyd fel ysgol yn gwerthuso ein cwricwlwm yn gyson gan wneud newidiadau perthnasol pna fo angen. Roedd holiadur i staff yr ysgol ar hyn wedi arwain at rai newidiadau effeithiol yn ein darpariaeth gan gynnwys lle mwy amlwg i lais y disgybl yn y dosbarthiadau a bod eu syniadau nhw yn cael eu hystyried wrth drafod thema/agwedd o'r gwaith. Daeth holl ysgolion y clwstwr at ei gilydd ym Medi 2024 ar gyfer diwrnod HMS llwyddiannus a oedd yn gyfle i fynychu sesiynau amrywiol ar amrywiaeth a gwrth-hiliaeth gan gynnwys delio gyda sefyllfaoedd o hiliaeth yn yr ysgol a geirfa derbyniol. Mae mynychu rhaglen arweinyddiaeth DARPL yn golygu fod gan y pennaeth wybodaeth mwy cyfredol ac eang o sut i ddatblygu prosesau a systemau i sicrhau meddylfryd gwrth-hiliaeth trwy'r ysgol gyfan.*

### BLAENORIAETH 2 – Datblygu Iechyd a Lles drwy'r ysgol gyfan

*Yn dilyn hyfforddiant gan aleod o dîm cynhwysiant yr awdurdod ar ddarpariaeth i bob plentyn ar lawr y Dosbarth, rhoddwyd nifer o strategaethau effeithiol ar waith i wella ein darpariaeth lles meddyliol ac emosiynol ar draws yr ysgol. Un o'r rhain oedd datblygu dull o adnabod teimladau pob disgybl wrth iddynt gyrraedd y dosbarth yn y bore. Roedd rhannu holiadur SHRN gyda holl randdeiliaid yr ysgol hefyd yn fodd o werthuso ein darpariaeth ymhellach.*

### BLAENORIAETH 3 – Cryfhau trefniadau hunan werthuso, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion;

*Mae defnyddio'r system dracio Traciwr yn hwyluso'r broses o olrhain cynnydd pob disgybl trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol ac erbyn hyn mae gwaelodlin y dosbarthiadau derbyn wedi eu hychwanegu hefyd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynnydd yn ystod y flwyddyn ble roedd y cydlynwyr ADY ac Asesu yn cyfarfod gydag athrawon unigol i drafod cynnydd pob disgybl yn y dosbarth a beth ellir ei roi mewn lle ar gyfer disgyblion nad oeddent wedi dangos cynnydd digonol. Bydd yr agwedd hon yn cael sylw pellach yng nghynllun gwella ysgol 2025-2026 gan gynnwys tynhau ein prosesau hunan werthuso.*

### BLAENORIAETH 4 – Gwella addysgeg drwy'r ysgol gyfan, yn enwedig dysgu annibynnol, llais y plentyn a dysgu cydweithredol.

*Wrth graffu llyfrau a siarad gyda disgyblion roedd cysondeb amlwg i'w weld erbyn hyn o ran strategaethau asesu ffurfiannol a phob un plentyn a holwyd yn gallu egluro sut*

*mae'r strategaethau hyn yn helpu iddynt wella eu gwaith e.e. cadw ochr dde yn wag ar gyfer cywiriadau / drafftio. Mireiniwyd ein disgwyliadau o asesu ffurfiannol mewn HMS yn dilyn yr ymchwil gweithredol diwethaf ac nawr mae canllaw cytun gan bob blwyddyn o'r disgwyliadau. Roedd sylwadau arolygwyr Estyn yn ystod ein arolygaid ym mis Mawrth yn atgyfnerthu hyn hefyd.*

*Byddwn yn parhau i sicrhau mwy o gysondeb o ran strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol a sut i hybu annibyniaeth y disgyblion ymhellach yn y flwyddyn academaidd 2025-2026.*

## **Y FFORDD YMLAEN - CYNLLUN GWELLA YSGOL 2025/2026**

***BLAENORIAETH 1 – Cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau a chysoni darpariaeth***

***BLAENORIAETH 2 – Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datgblygu'n ddysgwyr annibynnol***

***BLAENORIAETH 3 – Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl***

**CARDIFF COUNCIL/GYNGOR CAERDYDD**
**SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE / CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2024-2025**

**Governing Body/Corff Llywodraethu of: Ysgol Y Berllan Deg**

| | Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr | | Actual Expenditure/ Gwariant Cyflawnedig | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Staffing costs/Costau Staff** | | | | |
| Teaching Costs/Costau Addysgu | 1,127,899 | | 1,189,109 | |
| Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig | 38,478 | | 40,558 | |
| Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad | 0 | | 0 | |
| Short Term Supply/Llanw Byr Dymor | 0 | | 2,735 | |
| Long Term Supply/Llanw Hir Dymor | 34,188 | | 61,726 | |
| Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig | 0 | | 0 | |
| Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwywyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwywyr | 171,665 | | 153,560 | |
| Foreign Language Assistants/Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor | 0 | | 0 | |
| Technicians/Technegwyr | 0 | | 0 | |
| Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd | 17,288 | | 16,231 | |
| Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb | 0 | | 0 | |
| Administrative Staff/Staff Gweinyddol | 40,040 | | 38,108 | |
| Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon | 0 | | 0 | |
| Training Costs/Costau hyfforddi | 8,617 | | 13,101 | |
| Other Staff Costs/Costau staff eraill | 107,197 | | 137,946 | |
| Performance Management/Rheoli Perfformiad | 2,000 | | 1,431 | |
| **Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau Staff** | | 1,547,372 | | 1,654,506 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Premises Related Costs/Costau Eiddo** | | | | |
| Caretaking Staff/Staff Gofalwyr | 37,838 | | 40,531 | |
| Domestic Staff/Staff Domestig | 15,016 | | 12,652 | |
| Grounds Staff/Staff y Tir | 3,681 | | 3,312 | |
| Cleaning Costs/Costau Glanhau | 55,707 | | 44,676 | |
| Energy Costs/Costau Ynni | 39,452 | | 36,105 | |
| Rates/Cyfraddau | 46,084 | | 46,084 | |
| Repairs and Maintenance/Atgyweiriau a Chynhaliaeth | 17,085 | | 7,973 | |
| Water/Dŵr | 14,165 | | 12,680 | |
| **Total Premises Related Costs/Cyfanswm Costau Eiddo** | | 229,028 | | 204,012 |
| **Transport Costs/Costau Cludiant** | | | | |
| Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion | 0 | | 3,620 | |
| Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff | 200 | | 337 | |
| Vehichle Costs/Costau Cerbydau | 0 | | 0 | |
| **Total Transport Costs/Cyfanswm Costau Cludiant** | | 200 | | 3,957 |
| **Supplies and Services/Cyflenwadau a Gwasanaethau** | | | | |
| Teaching Materials/Adnoddau Addysgu | 13,250 | | 12,076 | |
| Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth | 0 | | 420 | |
| Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau Llyfrgell | 0 | | 0 | |
| Catering Costs/Costau Arlwyo | 4,200 | | 4,072 | |
| Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddosbarthu / Cynilion | -134,926 | | 0 | |
| Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu | 4,950 | | 7,253 | |
| Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr | 0 | | 0 | |
| Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau | 0 | | 0 | |
| Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol | 1,700 | | 45,878 | |
| Clerk to Governing Body/Clerc y Corff Llywodraethu | 1,705 | | 930 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Other office costs/Costau swyddfa eraill | 1,301 | | 3,682 | |
| Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu | 11,104 | | 9,351 | |
| Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion | 0 | | 0 | |
| Subsistence and expenses/Cynhaliaeth a threuliau | 0 | | 0 | |
| **Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau** | | -96,716 | | 83,661 |
| **Central Services/Gwasanaethau Canolog** | | | | |
| School Meals/Prydau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Service Level Agreements/Trefniadau Lefel Gwasanaeth | 16,783 | | 15,556 | |
| **Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog** | | 16,783 | | 15,556 |
| **Income/Incwm** | | | | |
| Additional Central Funding/Nawdd Canolog Ychwanegol | -231,395 | | -29,089 | |
| Community Education/Addysg Cymunedol | 0 | | 0 | |
| Donations/Rhoddion | -750 | | -50,254 | |
| Lettings/Gosodiadau | -11,000 | | -20,135 | |
| Other Income/Incwm arall | 0 | | -525 | |
| Grant Income/Incwm rhent | 0 | | -333,333 | |
| Sales/Gwerthiannau | 0 | | 0 | |
| School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant | -1,200 | | -2,500 | |
| **Total Income/Cyfanswm Incwm** | | -244,345 | | -435,836 |
| **Interest and Other/Llog ac Arall** | | | | |
| Interest on investments/Llog ar fuddsoddiadau | 0 | | 0 | |
| School Investments/Buddsoddiadau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Withdrawl Investments/Buddsoddiadau Dileadau | 0 | | 0 | |
| School Deficit/Gwariant Ysgol | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro | 0 | | 0 | |
| Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro | 0 | | 0 | |
| Interest/Llog | 0 | | 0 | |
| **Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac arall** | | 0 | | 0 |
| **Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant Net** | | 1,452,322 | | 1,525,856 |
| Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsoddwyd a ddygwyd ymlaen | | 56,488 | | |
| Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd | | -46,084 | | -46,084 |
| Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys | | | | -17,046 |
| **Revised Net Expenditure/Gwariant Net Diwygiedig** | | **1,462,726** | | **1,462,726** |

| **Summary/Crynodeb** | |
|---|---|
| **Total resources available in 2024-2025 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2024-2025** | £ |
| School balances Brought forward from 2023-2024/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2023-2024 | -56,488 |
| School Loans Brought forward from 2023-2024/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2023-2024 | 0 |
| Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn | 0 |
| Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig | 1,508,810 |
| **Total/Cyfanswm** | **1,452,322** |
| Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig | 1,525,856 |

| | |
|---|---|
| Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau | 0 |
| Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro | 0 |
| Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiant â chyfraddau a glustnodir | 0 |
| **Total balance carried forward to 2025-2026/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2025-2026** | **-73,535** |
| **Statement of Balances Held/Datganiad Balansau** | £ |
| Uninvested Balance as at 31st March 2025/Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025 | -73,535 |
| Invested Balance as at 31st March 2025/Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025 | 0 |
| Outstanding Loans as at 31st March 2025/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2025 | 0 |
| **Total Balances held as at 31st March 2025/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2025** | **-73,535** |

Mae ffocws strategol gwirioneddol ar leihau'r gyllideb ddiffygiol. Gwnaed arbedion mewn costau rhedeg a chodwyd refeniw ychwanegol trwy osod ystafelloedd yn yr ysgol. Fodd bynnag, y rheswm dros y diffyg yw'r nifer is o ddisgyblion sy'n dod i'r ysgol oherwydd cyfradd geni sy'n gostwng. Mae ffocws ar hyrwyddo'r ysgol a manteision addysg iaith Gymraeg i'r gymuned leol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg.